



# Polisi Cwynion

Cymeradwywyd y polisi hwn gan:

Cydlynnydd: Dafydd Rhys

Y Corff Llywodraethol: \_\_\_\_\_

Dyddiad: 12.7.22

Dyddiad adolygu: 12.7.25

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Rydym yn anelu at egluro unrhyw faterion nad ydych yn siŵr yn eu cylch. Os oes modd, byddwn yn cywiro unrhyw gamgymeriadau yr ydym wedi'u gwneud a byddwn yn ymddiheuro. Rydym yn anelu at ddysgu oddi wrth gamgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw i wella'r hyn a wnawn.

Ein diffiniad o wyn yw 'mynegiant o anfonlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol neu aelod o'i staff sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol'.

Mae'r weithdrefn gwyno hon yn ategu'n hymrwymiad ac mae'n ffordd o sicrhau bod unrhyw un sydd â buddiant yn yr ysgol yn gallu mynegi pryder a bod yn hyderus y bydd yn cael ei ystyried yn llawn ac, os credir bod sail i'ch pryderon, y bydd y mater yn cael ei drin yn briodol ac yn ddi-oed.

## **2. Pryd i ddefnyddio'r weithdrefn hon**

Pan fydd gennych unrhyw bryderon neu pan fyddwch yn gwneud cwyn, byddwn yn ymateb fel arfer yn y ffordd a esbonir isod. Weithiau, mae'n bosibl y bydd gennych bryderon am faterion nad ydynt yn cael eu penderfynu gan yr ysgol, ac mewn achosion o'r fath byddwn yn dweud wrthyf i bwy y dylech gyflwyno cwyn. Ar adegau eraill, mae'n bosibl y bydd gennych bryderon am faterion yr ymdrinnir â nhw dan weithdrefnau eraill, ac mewn achosion o'r fath, byddwn yn esbonio sut yr eir ati i ymdrin â'ch pryderon.

Os yw'r mater sy'n destun pryder i chi neu'r gwyn yn ymwneud â chorff arall yn ogystal â'r ysgol (er enghraifft, yr awdurdod lleol), byddwn yn cydweithio ag ef i benderfynu sut i ymdrin â'r mater sy'n achosi pryder i chi.

## **3. Ydych chi wedi gofyn i ni eto?**

Os ydych yn dod atom am y tro cyntaf, dylech roi cyfle i ni ymateb. Os nad ydych yn hapus â'r ymateb hwnnw, yna gallwch wneud eich cwyn gan ddefnyddio'r weithdrefn yr ydym yn ei disgrifio isod. Mae modd setlo'r rhan fwyaf o faterion sy'n destun pryder yn gyflym, drwy siarad â'r unigolyn perthnasol yn yr ysgol, heb fod angen defnyddio gweithdrefn ffurfiol.

## **4. Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl oddi wrthoch chi**

Rydym yn credu bod gan bob achwynydd yr hawl i gael gwrandawriad, i gael ei ddeall a'i barchu. Ond mae gan staff a llywodraethwyr ysgolion yr un hawl. Rydym yn disgwyl i chi fod yn foengar ac yn gwrtais. Ni fyddwn yn goddef ymddygiad ymosodol, sarhaus neu afresymol.

Ni fyddwn ychwaith yn goddef galwadau afresymol nac achosion lle mae mater yn cael ei wthio mewn modd afresymol, na chwynion blinderus. Mae gennym bolisi ar wahân er mwyn rheoli sefyllfaoedd lle mae rhywun yn 'gweithredu mewn modd annerbyniol'.

## **5. Sut y byddwn yn mynd ati i ateb y mater sy'n destun pryder i chi neu'ch cwyn**

Byddwn yn ystyried eich holl bryderon a chwynion mewn ffordd agored a theg.

Efallai y bydd angen ymestyn amserlenni ar gyfer delio â'ch pryderon neu gwynion ar ôl siarad â chi.

Efallai y byddwn yn gofyn am gyngor gan yr awdurdod lleol lle bo hynny'n briodol.

Gall rhai mathau o bryderon neu gwynion godi materion y mae angen iddynt gael eu trin mewn ffordd arall (heblaw am y polisi cwyno hwn); mewn achosion o'r fath, byddwn yn esbonio pam ac yn nodi pa gamau y byddwn yn eu cymryd.

Bydd y corff llywodraethu'n cadw cofnod o'r dogfennau a ddefnyddir i ymchwilio i'r mater sy'n destun pryder i chi neu i'ch cwyn am saith mlynedd ar ôl ymdrin â'r mater. Bydd cofnodion yn cael eu cadw yn yr ysgol a'u hadolygu gan y corff llywodraethu ar ôl saith mlynedd i benderfynu a oes angen eu cadw am gyfnod hirach.

Caiff cwynion dienw eu cofnodi ond mater i'r ysgol benderfynu arno yn ôl ei disgrisiwn fydd penderfynu a ddylid ymchwilio i'r gwyn ai peidio, gan ddibynnu ar natur y gwyn.

Os ystyrir mai'r unig reswm dros wneud cwynion yw er mwyn achosi niwed neu dramgwydd i unigolion neu i'r ysgol, bydd y corff llywodraethu'n sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o'r ymchwiliadau a'r camau a gymerir, gan gynnwys y rhesymau dros 'beidio â gweithredu'.

## **6. Ateb i'r mater sy'n destun pryder i chi neu i'ch cwyn**

Mae'r siart yn Atodiad A yn dangos beth all ddigwydd pan fyddwch chi'n gwneud cwyn neu'n mynegi pryder. Mae hyd at dri cham, sef Camau A, B ac C. Targedau yw'r holl derfynau amser a ddangosir ac maent yn hyblyg; fodd bynnag mae er lles pawb i ddatrys cwyn gyn gynted â phosibl. Bydd yr ysgol yn gweithio gyda chi i sicrhau fod yr amser a ganiateir i ddeilio â'ch pryder neu eich cwyn yn rhesymol ac yn helpu i ddod o hyd i ateb i'r broblem. Mae modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn ystod Camau A neu B. Gallwch ddod â pherthynas neu rywun yn gwmni i'ch cefnogi ar unrhyw adeg yn ystod y broses ond fel rheol bydd disgwyl i chi siarad drosoch eich hun. Os yw'r achwynydd yn ddisgybl, rydym yn cydnabod ei bod yn rhesymol i'r sawl sy'n dod yn gwmni iddo/iddi siarad ar ei ran a/neu roi cyngor iddo/iddi.

I'r graddau sy'n bosibl, bydd y mater sy'n destun pryder i chi neu'ch cwyn yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ar adegau, efallai y bydd angen i'r unigolyn sy'n delio â'r mater sy'n destun pryder i chi neu â'ch cwyn ystyried a oes angen i unrhyw un arall gael gwybod am y mater neu'r gwyn er mwyn ymdrin â hi'n briodol. Gallai hyn fod yn wir yn enwedig os daw'r gwyn yn destun gweithdrefn ar lefel uwch.

Os ydych chi'n ddisgybl o dan 16 oed a'ch bod am fynegi pryder neu wneud cwyn, byddwn yn gofyn eich caniatâd cyn cysylltu â'ch rhiant/rhieni neu'ch gofalwr/gofalwyr. Os ydych chi'n ddisgybl o dan 16 oed a'ch bod yn rhan o gwyn mewn unrhyw ffordd arall, efallai y byddwn yn gofyn i'ch rhiant/rhieni neu'ch gofalwr/gofalwyr fod yn bresennol mewn unrhyw sgwrs neu gyfweiliad gyda chi.

## **Cam A (Anffurfiol)**

Os oes mater yn achosi pryder i chi, yn aml gallwch ei ddatrys yn gyflym trwy siarad ag athro neu aelod arall o staff. Dylech fynegi'ch pryder cyn gynted â phosibl; fel arfer, byddem yn disgwyl i chi fynegi'ch pryder o fewn 10 diwrnod ysgol i unrhyw ddiwyddiad. Po fwyaf y byddwch yn oedi, y mwyaf anodd y bydd hi i'r rheini sy'n delio â'r mater ymdrin ag ef yn effeithiol. Fel arfer ni ymchwilir i gwynion os ydynt yn ymwneud â rhywbeth a ddiwyddodd fwy na 6 mis yn ôl.

Os ydych chi'n ddisgybl, gallwch fynegi'ch pryderon i'ch cynrychiolydd ar gyngor yr ysgol, eich tiwtor dosbarth neu athro/athrawes. Ni fydd hyn yn eich atal rhag cyflwyno cwyn yn ddiweddarach os byddwch chi'n teimlo nad yw'r mater(ion) a godwyd gennych wedi'u trin yn briodol.

Fel arfer, byddwn yn ceisio rhoi gwybod i chi beth rydym wedi'i wneud neu'n bwriadu ei wneud am y mater sy'n achosi pryder i chi o fewn 10 diwrnod ysgol, ond os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn siarad â chi a chytuno ar amserlen ddiwygiedig gyda chi.

Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am gadw golwg ar y modd yr eir ati i ymdrin â'r mater sydd wedi achosi pryder i chi neu â'ch cwyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd sy'n cael ei wneud. Bydd yr unigolyn hefyd yn cadw cofnod o'r mater sy'n destun pryder i chi fel y bo modd cyfeirio at y cofnod hwnnw yn y dyfodol.

### **Cam B (Ffurfiol)**

Gan amlaf, byddem yn disgwyl i'r mater sy'n destun pryder i chi gael ei ddatrys yn anffurfiol. Os byddwch yn teimlo nad yw'r mater cychwynol a achosodd pryder i chi wedi'i drin yn briodol, dylech gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig i'r pennaeth.

Byddem yn disgwyl i chi anelu at wneud hyn o fewn cyfnod o bum diwrnod ysgol i'r dyddiad y byddwch yn cael ymateb i'r mater sydd wedi achosi pryder i chi, a hynny am ei bod o fudd i bawb bod cwyn yn cael ei datrys cyn gynted ag y bo modd. Amgaeir ffurflen hefyd (Atodiad B) a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Os ydych yn ddisgybl, byddwn yn esbonio'r ffurflen i chi, yn eich helpu i'w llenwi ac yn rhoi copi i chi.

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â'r pennaeth, dylech gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig i gadeirydd y llywodraethwyr, gan ei hanfon i gyfeiriad yr ysgol, yn gofyn iddo/iddi ymchwilio i'ch cwyn.

Ym mhob achos, gall Sara Pierce-Jones (Rheolwr Busnes y Clwstwr) eich helpu i roi'ch cwyn ar bapur os bydd angen.

Os ydych chi'n rhan o gŵyn mewn unrhyw ffordd, bydd y Rheolwr Busnes yn esbonio beth fydd yn digwydd a'r math o gymorth sydd ar gael i chi.

Bydd Y Pennaeth yn eich gwahodd i drafod eich cwyn mewn cyfarfod. Cytunir ar amserlenni ar gyfer delio â'ch cwyn gyda chi. Byddwn yn ceisio cyfarfod gyda chi ac esbonio beth fydd yn digwydd, fel arfer o fewn 10 diwrnod ysgol i'r dyddiad y daeth eich llythyr i law. Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal a byddwn yn ysgrifennu atoch chi o fewn 10 niwrnod o gwblhau'r ymchwiliad i roi gwybod i chi beth yw'r canlyniad.

## Cam C (Ffurfiol)

Yn anaml y bydd cwyn yn mynd ymhellach. Fodd bynnag, os byddwch yn dal i deimlo nad yw'ch cwyn wedi'i thrin yn deg, dylech ysgrifennu, drwy gyfeiriad yr ysgol, at gadeirydd y llywodraethwyr yn amlinellu'ch rhesymau dros ofyn i bwyllgor cwynion y Corff Llywodraethu ystyried eich cwyn. Nid oes yn rhaid i chi ysgrifennu holl fanylion eich cwyn eto.

Os oes yn well gennych chi, yn lle anfon llythyr neu e-bost, gallwch siarad â chadeirydd y llywodraethwyr neu'r Rheolwr Busnes, a fydd yn nodi'r hyn a drafodir a'r hyn a fyddai'n datrys y broblem yn eich barn chi. Fel arfer, byddem yn disgwyl i chi wneud hyn o fewn pum diwrnod ysgol i'r dyddiad y byddwch yn cael ymateb yr ysgol. Gofynnir i chi ddarllen y nodiadau, neu wrando ar y nodiadau'n cael eu darllen, a'u llofnodi fel cofnod dilys o'r hyn a ddywedwyd. Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut y byddwn yn ymdrin â'r gwyn ac yn anfon llythyr atoch i gadarnhau hyn. Bydd y pwyllgor cwynion fel arfer yn cynnal cyfarfod gyda chi o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn eich llythyr.

Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthyhych erbyn pryd y dylai'r pwyllgor cwynion dderbyn yr holl dystiolaeth a dogfennau i'w hystyried. Bydd pawb sy'n rhan o'r gwyn yn gweld y dystiolaeth a'r dogfennau cyn y cyfarfod. Bydd y llythyr hefyd yn cofnodi'r hyn yr ydym wedi'i gytuno gyda chi ynglŷn â ble a phryd y cynhelir y cyfarfod a beth fydd yn digwydd. Efallai y bydd angen newid yr amserlen er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn casglu gwybodaeth neu er mwyn cael cyngor. Yn yr achos yma, byddwn yn trefnu cyfarfod arall gyda chi.

Fel rheol, er mwyn delio â'r gwyn cyn gynted â phosibl, ni fydd y pwyllgor cwynion yn ad-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith. Os byddwch yn gofyn am ad-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith, efallai y bydd y pwyllgor o'r farn y byddai'n rhesymol gwneud penderfyniad ar y gwyn yn eich absenoldeb i osgoi oedi diangen.

Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod ysgol i'r cyfarfod i esbonio canlyniad ystyriaethau pwyllgor cwynion y corff llywodraethu.

Byddwn yn cadw cofnodion o bob sgwrs a thrafodaeth fel y bo modd cyfeirio atynt yn y dyfodol ac er mwyn i'r corff llywodraethu llawn fedru eu hadolygu. Cedwir y cofnodion hyn am o leiaf saith mlynedd.

Pwyllgor cwynion y corff llywodraethu fydd yn penderfynu'n derfynol ar gwynion. Pwyllgor Cwynion y Corff Llywodraethol yw'r corff penderfynu terfynol. Dim ond os credant i'r gweithdrefnau beidio â chael eu dilyn yn gywir neu i'r penderfyniad gael ei wneud heb roi'r sylw dyledus i bolisiâu neu ddeddfwriaeth berthnasol y bydd gan achwynwyr yr hawl i apelio i'r Awdurdod Lleol. Nid oes grym gan yr Awdurdod Lleol i wydroi penderfyniad, dim ond i ofyn am ail-ymchwilio i'r gwyn. Ail-ymchwilir i'r gwyn yn defnyddio unigolion nad oedd ynghlwm â'r ymchwiliad blaenorol.

Os ydych o'r farn fod yr Awdurdod Lleol wedi ymddwyn yn afresymol mae modd i chi wneud apêl i'r: Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA Gall y Gweinidog Addysg ymyrryd pe na bai corff llywodraethol neu Awdurdod Lleol wedi cyflawni eu

dyletswydd gyfreithiol neu os oeddynt wedi ymddwyn yn afresymol. Ni fyddai'r Gweinidog Addysg yn gwneud unrhyw beth hyd nes i'r ysgol a'r Awdurdod Lleol orffen ymchwilio i'r gŵyn.

## **7. Amgylchiadau arbennig**

Pan wneir cwyn am unrhyw un o'r bobl neu'r grwpiau/cyrff a ganlyn, bydd y weithdrefn gwyno yn cael ei defnyddio mewn ffordd wahanol.

- I. Llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr  
Caiff y mater sy'n achosi pryder neu'r gwyn ei chyfeirio at gadeirydd y llywodraethwyr a fydd yn cynnal yr ymchwiliad. Fel arall, gall y cadeirydd ddirprwyo'r mater i lywodraethwr arall a fydd yn cynnal yr ymchwiliad. Bydd Cam B a chamau dilynol y weithdrefn gwyno yn cael eu defnyddio.
- II. Cadeirydd y llywodraethwyr neu'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr  
Bydd is-gadeirydd y llywodraethwyr yn cael ei hysbysu a bydd yn ymchwilio i'r gwyn neu'n ei dirprwyo i lywodraethwr arall. Bydd Cam B a chamau dilynol y weithdrefn gwyno yn cael eu defnyddio.
- III. Cadeirydd y llywodraethwyr ac is-gadeirydd y llywodraethwyr  
Caiff y gwyn ei chyfeirio at glerc y corff llywodraethu a fydd yn hysbysu cadeirydd y pwyllgor cwynion. Bydd Cam C o'r weithdrefn gwyno yn cael ei ddefnyddio.
- IV. Y corff llywodraethu cyfan  
Caiff y gwyn ei chyfeirio at glerc y corff llywodraethu a fydd yn hysbysu'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr, yr awdurdod lleol ac, os yn briodol, yr awdurdod esgobaethol. Fel rheol, bydd yr awdurdodau yn cytuno ar drefniadau gyda'r corff llywodraethu i gynnal ymchwiliad annibynnol i'r gwyn.
- V. Y pennaeth  
Bydd y mater sy'n achosi pryder neu'r gwyn yn cael ei chyfeirio at gadeirydd y llywodraethwyr a bydd ef/hi yn cynnal yr ymchwiliad neu bydd, o bosibl, yn dirprwyo'r mater i lywodraethwr arall. Bydd Cam B a chamau dilynol y weithdrefn gwyno yn cael eu defnyddio.

Ym mhob achos, bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu'n sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg, heb ragfarn. Dan rai amgylchiadau gall hyn gynnwys archwiliwr allanol yn ymchwilio i'r cwyn.

## **8. Ein hymrwymiad i chi**

Byddwn yn cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif ac, os ydym wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau, byddwn yn ceisio dysgu oddi wrthynt.

Os bydd angen help arnoch i leisio'ch pryderon, byddwn yn ceisio'ch cynorthwyo. Os ydych yn berson ifanc ac os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu MEIC, sef llinell gymorth genedlaethol sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chyngor i blant a phobl ifanc. Mae cyngor a chymorth ar gael hefyd oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ymgynghori â staff a disgyblion ar y polisi hwn, a bydd yn ymgynghori ymhellach os bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud yn y dyfodol.


Gellir cysylltu â MEIC drwy radffôn: 0808 8023456, neu destun: 84001. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael 24 awr y dydd.

Gellir cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru drwy radffôn:

0808 801 1000 (Dydd Llun i ddydd Gwener 9a.m. tan 5p.m.), testun: 80 800 (rhowch COM ar ddechrau'ch neges) neu e-bost: [advice@childcomwales.org.uk](mailto:advice@childcomwales.org.uk)

## Atodiad A: Crynodeb o sut i ddelio â phryderon neu gwynion

Dilynir y weithdrefn hon os cyflwynir pryder neu gwyn am yr ysgol, cyn belled nad yw'r pryder neu'r gwyn yn berthnasol i weithdrefnau statudol eraill.



\*Os yw'r gwyn yn ymwneud â'r pennaeth, dylech ysgrifennu at gadeirydd y corff llywodraethu.

\*\*Os yw'r gwyn yn ymwneud â chadeirydd y llywodraethwyr, dylech ysgrifennu at yr is-gadeirydd. Targedau yw'r holl amserlenni a ddangosir ac maent yn hyblyg; mae o fudd i bawb bod cwyn yn cael ei datrys cyn gynted â phosibl. Bydd yr ysgol yn gweithio gyda chi i sicrhau bod yr amser a neilltuir i ddelio â'r mater sy'n achosi pryder i chi neu'ch cwyn yn rhesymol a'i fod yn helpu i gael ateb i'r problem.





## Atodiad B: Ffurflen gwyno enghreifftiol

Fel arfer, yr unigolyn a gafodd y broblem ddylai lenwi'r ffurflen hon. Os ydych yn gwneud cwyn ar ran rhywun arall, llenwch Adran B hefyd. Dylech nodi, cyn i ni fynd ati i ymdrin â'r gwyn, bod yn rhaid i ni ein bodloni ein hunain bod gennych yr awdurdod i weithredu ar ran yr unigolyn dan sylw. Os ydych yn ddisgybl, bydd yr ysgol yn eich helpu i lenwi'r ffurflen hon, bydd yn ei hesbonio i chi ac yn rhoi copi i chi unwaith y bydd wedi'i llenwi.

### A. Eich manylion

A. Eich manylion	
Teitl:	
Cyfenw:	
Enw(au) cyntaf:	
Cyfeiriad:	
Cod Post:	
Rhif ffon yn ystod y dydd:	
Rhif ffon symudol:	
Cyfeiriad e-bost:	
Sut y byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi?	

### B. Os ydych yn gwneud cwyn ar ran rhywun arall, nodwch ei f/manylion

Ei enw yn llawn:	
Cyfeiriad a Chod Post:	
Beth yw'ch perthynas ag ef/â hi?:	
Pam yr ydych yn gwneud cwyn ar ei ran?:	

**C. Ynglyn â'ch cwyn (gallwch barhau â'ch atebion ar ddalenni ar wahân os oes angen)**

C.1 Enw'r ysgol yr ydych yn cwyno yn ei chylch.

C.2 Yn eich barn chi, beth wnaethon nhw o'i le neu beth na wnaethon nhw?

C.3 Disgrifiwch yr effaith y mae hyn wedi'i chael arnoch.

C.4 Pryd y daethoch yn ymwybodol o'r broblem am y tro cyntaf?

C.5 Os oes mwy na tri mis wedi mynd heibio ers i chi ddod yn ymwybodol o'r broblem am y tro cyntaf, nodwch y rheswm pam nad ydych wedi codi hyn o'r blaen.\*

C.6 Yn eich barn chi, beth ddylid ei wneud i ddatrys y sefyllfa?

C.7 Ydych eisoes wedi codi hyn gydag aelod o staff? Os ydych, rhowch fanylion cryno ynglŷn â sut a phryd y gwnaethoch chi hynny.

**\*Mae'n bwysig codi pryderon/cwynion cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'n bosibl na fydd yr ysgol yn gallu ymchwilio i gŵyn sy'n dyddio'n ôl fwy na 3 mis ac oni bai bo rhesymau cryf dros yr oedi, ni chaiff materion sy'n dyddio'n ôl fwy na 6 mis eu hymchwilio.**

Llofnod yr achwynydd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod os ydych yn gwneud cwyn ar ran rhywun arall

Llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

**Defnydd Swyddogol**

Dyddiad anfon cydnabyddiaeth:

Gan bwy:

Cwyn wedi'i chyfeirio at:

Dyddiad: